**Ymchwiliad Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol**
**EEFP 12**
**Ymchwiliad i effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd yng Nghymru**
**Ymateb gan: SSE**

# Ymateb SSE i ymchwiliad Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol i Dlodi Tanwydd yng Nghymru

**Ymateb SSE i ymchwiliad Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol i Dlodi Tanwydd yng Nghymru**

**Crynodeb**

1. Fel cwmni cyfrifol mae SSE yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o weithgareddau i helpu ein cwsmeriaid agored i niwed, yn cynnwys darparu dros £9m o gymorth ariannol yng Nghymru yn 2013/4.

2. Mae SSE wedi gosod a chyflawni dros 79,000 o fesurau effeithlonrwydd ynni i gartrefi ar hyd a lled Cymru dros y pum mlynedd diwethaf, ac yn edrych ymlaen at ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i sicrhau y caiff prosiectau y dyfodol eu cyflawni yn llwyddiannus.

3. Er mai gwella effeithlonrwydd ynni stoc tai y DU yw'r ffordd mwyaf priodol o fynd i'r afael â thlodi tanwydd, cred SSE y dylai polisïau gael eu cyllido trwy drethi yn hytrach nag ardollau ar filiau ynni cwsmeriaid; bydd hyn yn lleihau'r baich ariannol ar bobl ar incymau isel.

**Trosolwg SSE**

4. Pwrpas craidd SSE yw darparu'r ynni sydd angen ar bobl mewn ffordd ddibynadwy a chynaliadwy. Mae'r cwmni yn cyflogi tua 2,000 o bobl ar hyd a lled y DU ac Iwerddon, yn cynnwys 350 o brentisiaid a gweithwyr technegol dan hyfforddiant. Yn 2013 daeth SSE yn gwmni mwyaf y FTSE i fod yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig. Mae'r cwmni yn cyfrannu cyfanswm trethi yn y DU o dros £300 miliwn y flwyddyn, ac mae SSE yn buddsoddi tua £4 miliwn y diwrnod i rwydwaith mewnol ynni y DU.

5. Mae brandiau adwerthu SSE yn cyflenwi ynni i dros naw miliwn o gartrefi a busnesau, gan wneud SSE yn ail gyflenwr mwyaf trydan a nwy ym marchnad Prydain Fawr. Yn ddiweddar, cyhoeddodd SSE ei bod yn rhewi pris ynni cartref tan o leiaf 2016 – dyma'r ymrwymiad pris ynni diamod hwy erioed.

6. Mae darpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid SSE yn gyson yn cael ei graddio fel rhai gorau'r diwydiant, ac arddangosir hyn trwy gynnal y safle cyntaf mewn adroddiad perfformiad gwasanaeth cwsmeriaid y diwydiant, gan dderbyn y nifer lleiaf o gwynion gan cwsmeriaid ymysg y prif gyflenwyr ynni1. Mae busnesau eraill SSE yn cynnwys rhwydweithiau a chynhyrchu - y ni yw cynhyrchwyr mwyaf trydan o ffynonellau adnewyddadwy, gan gynnwys hydro a gwynt.

**SSE yng Nghymru**

7. Mae SSE yn cyflogi dros 1,500 o staff ar hyd a lled Cymru, ble y caiff y cwmni ei adnabod orau am y brand adwerthu ynni SWALEC. Mae SWALEC yn gwasanaethu dros 1 miliwn o gwsmeriaid adwerthu ynni, yn ogystal â noddi Undeb Rygbi Cymru, stadiwm SWALEC a chriced llawr gwlad. Yn ogystal â chynnig biliau ynni iaith Gymraeg, lansiwyd llinell rhadffôn gwasanaethau cwsmeriaid iaith Gymraeg yn ddiweddar, sydd yn golygu bod ein cwsmeriaid yn cael cyfathrebu gyda ni yn y Gymraeg yn ôl eu dewis. Mae SSE hefyd yn gweithredu nifer o brosiectau a busnesau ar hyd a lled Cymru, yn cynnwys cynhyrchu ynni, goleuo stryd, mesuryddion, gwasanaethau cartref a chontractio.

**Helpu Cwsmeriaid Agored i Niwed**

8. Mae Canolfan Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid SSE wedi'i sefydlu yng Nghaerdydd, ac yn cyflogi dros 900 o staff sydd yn delio gyda galwadau gan gwsmeriaid adwerthu ynni SSE i gyd. Mae eu gwaith yn cynnwys rhoi cyngor ar ymholiadau mesurydd blaendalu, rhoi cyngor ar effeithlonrwydd ynni er mwyn helpu i gwsmeriaid leihau eu defnydd ynni, a helpu pobl sydd yn wynebau anawsterau talu biliau ynni drwy wneud trefniadau talu arbennig neu drwy eu cyfeirio at sefydliadau eraill am gymorth ar faterion mwy penodol.

[1] Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban (Mai 2014)

9. Yn ogystal â rhewi prisiau ynni tai tan o leiaf Ionawr 2016, mae SSE yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i helpu i gwsmeriaid agored i niwed reoli effaith prisiau ynni. Yn ystod 2013/14, gwariodd SSE dros £50m ar ddarparu cymorth i dros 330,000 o gwsmeriaid agored i niwed trwy'r cynllun Disgownt Cartrefi Cynnes (Warm Home Discount scheme). Mae'r cynllun hwn yn galluogi i bensiynwyr a chwsmeriaid agored i niwed gael cymorth gyda'u biliau tanwydd drwy ddarpariaeth uniongyrchol o £135 i helpu gyda chost ynni dros y gaeaf.

10. Roedd cwsmeriaid yng Nghymru yn manteisio o gyfran fawr o gymorth ariannol SSE yn 2013/14, cyfanswm o dros £9.4m o gyllid, o gymharu â £7.6m yn yr Alban a £37.0m yn Lloegr. Mae'r ffigurau hwn yn cynnwys y Craidd Disgownt Cartrefi Cynnes a grwpiau ehangach, yn ogystal â'r Gronfa Gymorth Blaenoriaethol a Chynlluniau Ad-daliad Gaeaf.

11. Mae SSE hefyd yn gweithredu gwasanaeth blaenoriaethu Careline, sydd wedi'i ymrwymo i helpu cwsmeriaid sydd yn hen, anabl neu sydd ag anghenion meddygol arbennig. Darperir trefniadau talu hyblyg sydd wedi'u teilwra i dalu am y trydan a nwy y maent yn eu defnyddio. Rhwng dechrau Rhagfyr a diwedd Chwefror (neu am gyfnod hwy pe bai'r tywydd yn anarferol o oer y tu allan i'r cyfnod hwn), mae SSE yn ymrwymedig i bolisi o ddim datgysylltiadau sydd yn berthnasol i'n cwsmeriaid i gyd.

12. Mae fforddiadwyedd yn dal i fod yn her allweddol yn y diwydiant ynni, ac felly mae SSE yn gweithio gyda chwsmeriaid i reoli dyled sy'n gysylltiedig ag ynni. Mae SSE yn ymgysylltu â chwsmeriaid â dyledion cyn gynted â phosib, gan gadarnhau trefniadau talu sydd â balans llai cychwynnol ac yn helpu i ehangu costau ynni ar hyd y flwyddyn. Trwy ei phartneriaeth â Mentrau Cymdeithasol Uniongyrchol (rhan o Gyngor ar Bopeth) helpodd SSE i 210 o gwsmeriaid i gynyddu eu hincwm cartrefol, gyda chynnydd ar gyfartaledd o £3,765 y flwyddyn (£72 yr wythnos).

**ECO**

13. Cyflwynwyd y Rhwymedigaeth Cwmniau Ynni ym mis Ionawr 2013, sef rhaglen effeithlonrwydd ynni a orfodwyd gan y Llywodraeth sydd yn golygu bod yn rhaid i'r cwmniau ynni mwyaf gyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi. Mae SSE yn hollol gefnogol o nodau ECO ac o fis Ebrill 2014 gosodwyd mesurau i helpu i bobl yn eu cartref leihau eu biliau ynni a'u hôl troed carbon mewn tua 87,000 o gartrefi.

14. Cred SSE bod diwygio ac ehangu ECO a wnaed gan Lywodreath y DU ym mis Rhagfyr 2013 yn symudiad a oedd yn niddordeb gorau ein cwsmeriaid, oherwydd bydd y cynllun yn cael ei gyflawni mewn ffordd mwy cost-effeithiol. Mae hyn wedi galluogi i SSE basio ymlaen arbedion llawn o £38 i gwsmeriaid. Fod bynnag, mae SSE yn dal i fod yn bryderus am effaith ECO am dri prif rheswm. Yn gyntaf, mae'r cynllun yn anweddol ac yn agored i ymyrraeth wleidyddol. Yn ail, gall beidio â chynnwys cyflenwyr llai yn y rhwymedigaeth hefyd gael effeithiau negyddol ar gystadleuaeth o fewn y farchnad. Yn olaf, mae'r gost o ariannu ECO a chostau polisi llywodraethol eraill trwy filiau ynni cwsmeriaid yn anflaengar.

15. Unwaith i gyfnod presennol ECO ddod i ben yn 2017, mae SSE yn credu y dylai prosiectau strwythur mewnol arwyddocaol fel insiwleiddio stoc tai y DU gael eu harwain gan y llywodraeth, eu cyllido drwy drethiant cyffredinol, a chael cyfranogaeth fwy o lawer gan awdurdodau lleol. Yn y cyfamser, mae SSE yn croesawu ymdrechion i wella lefelau tryloywder o ran sut y caiff costau cyflenwi ECO eu hadrodd, ar yr amod nad yw'r gallu i gyflenwi'r rhaglen yn y modd mwyaf cost-effeithiol yn cael ei gyfaddawdu.

**Polisi**

16. Mae SSE yn credu bod angen i bolisiau effeithlonrwydd ynni fod yn ymarferol a chost-effeithiol i'w cyflenwi, sydd yn golygu efallai y dylai gwneithurwyr polisi ail ystyried pa un a yw macanweithiau sy'n seiliedig ar y farchnad yn briodol er mwyn cyflawni'r deilliannau, a pha un a yw'n bosib o reidrwydd i gyflawni nodau polisi annhebyg (e.e. lleihau carbon a lleihau tlodi tanwydd) drwy un

polisi yn unig. Yn fwy buan, rhaid cyfeirio ystyriaeth tuag at wneud rhaglenni sy'n bodoli eisoes yn ymarferol ac yn llai beichus i gydymffurfio gyda nhw.

17. Dylai gwneuthurwyr polisi hefyd anelu'n gyffredinol tuag at gyflawni cydweithredu traws-adrannol er mwyn sicrhau bod cartrefi newydd yn ynni-effeithlon a bod eiddo hen o safon dderbyniol. Mae SSE yn nodi dull cyfanol Llywodraeth Cymru o daclo tlodi, ac mae tlodi tanwydd yn rhan arwyddocaol o hyn. Tra bod y dull hwn yn fanteisiol, bydd SSE yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn rheolaidd gyda ffocws penodol ar dlodi tanwydd, sydd â set o nodweddion unigryw.

18. Nid yw'n bosib o reidrwydd i gyflenwi prif nodau rhaglenni effeithlonrwydd ynni (e.e. lleihau allyriadau neu gymorth i gwsmeriaid agored i niwed) gydag un polisi sengl. Pe bai hyn yn cael ei ail adolygu yna gall mesurau gael eu targedu'n well a'u cyllido yn fwy priodol. Mae SSE yn credu y dylai cynlluniau yn ddelfrydol flaenoriaethu y rheiny sy'n byw mewn tlodi yn hytrach na'r rheiny sy'n byw mewn cartrefi aneffeithlon, ond yn ymarferol nid yw defnyddio procsiaid fel data budd-daliadau i adnabod tlodi tanwydd yn effeithiol iawn. Mae defnyddio procsiaid yn arwain at gyllid ac adnoddau yn cael eu cyfeirio tuag at adnabod a helpu pobl nad ydynt mewn nifer o achosion mewn tlodi tanwydd. Mae SSE yn credu bod angen i bolisi effeithlonrwydd ynni gael cydbwysedd rhwng dod o hyd i bobl sy'n dioddef o dlodi tanwydd a chyflawni mesurau effeithlonrwydd ynni i gartrefi ag insiwleiddiad gwael.

**Green Deal**

19. Mae SSE yn cefnogi'r Green Deal yn llawn a byddai yn fuan yn ei lansio yn raddol ar hyd a lled y wlad. Cred SSE bod cyfuno ECO â Chyllid Green Deal yn lleihau cost cyflenwi ECO ac yn y pen draw yn arbed arian i gwsmeriaid. I alluogi hyn, byddwn yn parhau i annog Llywodraeth y DU i ddiwygio anghenion y Rheol Aur er mwyn lleihau cyfraniad cychwynnol y cwsmer fel bod cyllid Green Deal ac ECO yn gynnig sydd yn wir yn ddeniadol i'r cwsmer.

**Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru**

20. Mae hanes gryf gan SSE o gyflenwi rhaglenni effeithlonrwydd ynni yng Nghymru. O dan y Rhaglen Arbedion Ynni Cymunedol (CESP) darparwyd tua £15m o gyfraniad ariannol gan arbed cyfanswm o dros 500,000 tunnell o CO2 gan SSE. Hyd yn hyn, dan y Rhwymedigaeth Cwmniau Ynni (ECO) mae SSE wedi gweithio gyda chontractwyr lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ac Awdurdodau Lleol i gyflenwi dros 5,800 o fesurau ar hyd a lled Cymru, yn cynnwys Insiwleiddio Waliau Ceudod, Insiwleiddio Waliau Solid, boileri newydd, mesurau rheoli gwres, ac insiwleiddio lloftydd. Mae hyn wedi helpu i rai o'r ardaloedd mwyaf tlawd yng Nghymru leihau eu biliau ynni a'u hôl troed carbon, gyda nifer o brosiectau SSE yn dal i ddatblygu ar hyd a lled y wlad.

21. Mae un prosiect arwyddocaol wedi gweld SSE yn gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Cartrefi Cwm Merthyr i osod EWI i 87 o gartrefi ym Merthyr Tydfil. Mae'r tai pâr a thai rhes hyn tua 65 oed ac wedi dirywio dros y blynyddoedd, wedi dioddef cyrydiad, ac wedi'u hinsiwleiddio'n wael. Mae tua 68 eiddo yng Nghyfnod 1 y prosiect wedi eu cwblhau yn barod ac mae gwaith wedi dechrau ar y 19 eiddo yng Nghyfnod 2. Rhoddwyd cyllid atodol i Gartrefi Cwm Merthyr o dua £200k tuag at yr EWI, a fydd yn gallu lleihau biliau tanwydd o £200 y flwyddyn ac arbed ychydig yn llai na 25 tunnell o C02 ar hyd oes yr insiwleiddiad.

22. Mae SSE yn nodi nod Llywodraeth Cymru o wneud y gorau o gyflenwi ECO yng Nghymru, ond mae'r absenoldeb o dargedau rhanbarthol o fewn y cynllun yn golygu bod gan Gymru y potensial i fanteisio o wariant anghyfartal pe bai cyflenwyr yn gweld Cymru fel y 'llwybr â'r gwrthiant lleiaf' ar gyfer rhyddhau rhwymedigaeth gymhleth a chostus. O ran y materion hyn, mae SSE yn gweld model HEEPS Llywodraeth yr Alban fel templed defnyddiol ar gyfer cynllun effeithlonrwydd ynni sydd yn mabwysiadu amgylchedd deniadol ble y gall cyflenwyr ryddhau eu rhwymedigaeth ECO wrth gefnogi cyfleoedd cyflogaeth lleol. Dan HEEPS mae awdurdodau lleol yn nodi ardaloedd a mesurau blaenoriaeth o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae Awdurdodau Lleol mewn safle da

i wybod am gyflwr ac anghenion stoc tai, ac mae'r wybodaeth leol hon yn ei wneud yn gynllun deniadol o safbwynt cyflenwyr, a fydd yn gallu cyflenwi mesurau â chostau llai oherwydd economiau i raddfa, yn ogystal â charbon rhatach.

23. Yng Nghymru, gall y Cynllun Arbed weithiau rwystro cyflenwad ECO oherwydd gorgyffyrddiad o eiddo potensial. Un o'r prif resymau am hyn yw rôl allweddol Awdurdodau Lleol, sydd â thimau caffael sydd wedi eu nodi fel rhwystrau a galluogwyr o ran cyflenwi ECO, gyda'r broses gaffael yn aml yn ffafrio cynlluniau Arbed dros brosiectau a arweinir gan breswylwyr neu gyflenwyr. Efallai y bydd cyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd2 yn ymddwyn fel ffordd o wneud y gorau o'r potensial i gyflenwyr ryddhau eu rhwymedigaeth, gan bod y cyllid yn cael ei ddosbarthu yn bennaf drwy Awdurdodau Lleol. Fel un o'r ychydig o gwmniau sydd yn gallu cynnig cyllido ECO bydd SSE yn croesawu unrhyw fewnbwn gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau er mwyn helpu i sicrhau y caiff ein rhwymedigaeth ei chyflenwi yng Nghymru.

**Casgliad**

24. Bydd SSE yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu'n bellach gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill ar sail rheolaidd a strwythuredig, er enghraifft trwy gyfarfod chwarterol.

25. Bydd SSE yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gyflenwi prosiectau llwyddiannus yng Nghymru, ac rydym yn gweld model HEEPS yr Alban fel templed defnyddiol ar gyfer cynlluniau effeithlonrwydd ynni sydd yn bwriadu denu gwario ECO.

[2] http://wales.gov.uk/newsroom/environmentandcountryside/2013/131011fuelpoverty/?lang=en